**Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)**

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan yr Adran Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod ar Gymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 19 Hydref 2009 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Elin Jones AC

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Yr Aelod Cynulliad â gofal am y Mesur Arfaethedig

19 Hydref 2009

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Adran 1. | Disgrifiad |
| Adran 2. | Cefndir deddfwriaethol |
| Adran 3. | Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael |
| Adran 4. | Ymgynghori |
| Adran 5. | Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth |
| Adran 6. | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |

**Adran 1: Disgrifiad**

1.1. Diben y Mesur hwn yw gwneud darpariaeth statudol, trwy fframwaith deddfwriaethol, ar gyfer datblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru.

1.2 Mae'r Mesur yn diffinio cwmpas sylfaenol y gweithgareddau arfaethedig fel a ganlyn:

- cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn y diwydiant
- gwella marchnata yn y diwydiant
- gwella neu ddatblygu'r gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi
- gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.

**Adran 2: Cefndir Deddfwriaethol**

2.1 Mae'r pwerau i wneud Mesur o'r fath i'w gweld ym Mater 1.1. Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymu 2006.

2.2 Mater 1.1

Y diwydiant cig coch, mewn cysylltiad â:

a) chynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;
b) gwella marchnata yn y diwydiant
c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi
(d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt

2.3 Ni chafodd trefniadau eraill eu hystyried gan mai nod y Mesur hwn yw dileu'r trefniant presennol a rhoi trefniant newydd yn ei le.

**Adran 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

3.1 Diben sylfaenol y Mesur yw diddymu'r angen am Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i reoli datblygiad diwydiant cig coch Cymru a'r ffordd y mae'n cael ei hybu. Bydd y Mesur yn gwneud Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am y Diwydiant Cig Coch. Y bwriad yw parhau â'r trefniadau rheoli gweithredol presennol trwy gyflwyno cytundeb dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru (HCC) a fydd yn caniatáu HCC i barhau i weithio fel ag y mae.

3.2 Ceir consensws cyffredinol yn y diwydiant ffermio ac ymhlith rhanddeiliaid allweddol bod perygl arwyddocaol yn perthyn i'r trefniadau presennol lle codir yr ardoll a'i chasglu gan mwyaf yn y man lladd a bod angen cyfrwng felly i gyflwyno

mecanweithiau neu opsiynau gwahanol dros amser i allu ymateb i newidiadau neu heriau o fewn y diwydiant yn y dyfodol.  Bydd gofyn i'r Mesur felly roi fframwaith hyblyg a fyddai'n gallu cynnal mecanweithau amgen ar gyfer pennu a chasglu'r ardoll cig coch.

3.3 Problem arall i'r diwydiant cig coch yw ei fod yn agored i effaith argyfyngau allanol annisgwyl, er enghraifft halogi porc yn Iwerddon gan ddeuocsin ac ofnau ynghylch diogelwch bwyd fel yr achosion diweddar o E Coli.  Nid oes modd cynllunio ar gyfer problemau o'r math gan eu bod yn eu hanfod yn gallu digwydd unrhyw bryd a chael effaith ddifaol ar y diwydiant.  Diben arall y Mesur yw darparu fframwaith hyblyg ag iddo ffiniau pendant i Weinidogion Cymru allu cyflwyno mentrau newydd drwyddo mewn byr amser i fynd i'r afael â heriau o'r math hwn.

3.4 Mae'n bwysig bod gan y Mesur fframwaith a fydd yn caniatáu cadw'r trefniadau cyfredol heb eu newid ond bod iddo ddigon o gwmpas a hyblygrwydd i ganiatáu cyflwyno mecanweithiau amgen yn y dyfodol os bydd angen.

**Cefndir Deddfwriaethol**

3.5 Cyn 2008, roedd nifer o gyrff ar lefel y Deyrnas Unedig (DU) neu Brydain Fawr yn casglu ac yn dosbarthu ardoll mewn sectorau amaethyddol a garddwrol penodol. Un o'r cyrff hynny oedd y Comisiwn Cig a Da Byw ("yr MLC") a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 a godai ardoll a'i chasglu oddi wrth sector cig coch Prydain Fawr.  Yn sgil adolygiad yn 2005 o fyrddau ardollau amaethyddol a garddwrol yn y DU a Phrydain Fawr gan Rosemary Radcliffe ("Adolygiad Radcliffe"), cytunodd gweinyddiaethau'r DU mewn egwyddor i sefydlu bwrdd ardollau ar lefel y DU a fyddai'n gorff cyhoeddus anadrannol ac a fyddai'n gweithredu fel cwmni daliannol ar gyfer chwe chwmni sectorol yn cwmpasu cig eidion ac oen, moch, garddwriaeth, ydau, cynnyrch llaeth a thatws.

3.6 Pwrpas bwrdd ardollau newydd y DU a'i gwmnïau sectorol (yn ôl Adolygiad Radcliffe), ymhlith pethau eraill, fyddai gwneud y sector amaethyddol yn y DU yn fwy effeithlon, cynaliadwy a chynhyrchiol a marchnata a datblygu'r sector.  Yr ardollau ar y diwydiant fyddai'n ariannu'r dibenion hyn.  Awgrymodd Adolygiad Radcliffe y dylid sefydlu bwrdd ar lefel y DU, gydag is-gwmnïau sectorol, neu rhoi'r gallu i weinyddiaethau datganoledig greu byrddau ardollau a hybu i weithredu yn eu tiroedd eu hunain, pe bai galw penodol am hynny yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

3.7 Ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ar Adolygiad Radcliffe ac ar sut y dylid rhoi darpariaethau Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf AMChG") ar waith yng Nghymru yn ystod dechrau taith y Mesur Seneddol trwy'r Senedd. Casgliad yr ymgynghoriad oedd bod y diwydiant amaeth yng Nghymru yn gofyn am fwrdd ardollau a hybu cig coch ar wahân ond bod y sectorau eraill am fod yn rhan o fwrdd ardollau'r DU.

3.8 Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad y casgliadau hyn ond penderfynodd y byddai'n well rhoi'r pwer i godi ardoll ar y sector cig coch yng Nghymru ac i'w

hybu, ei farchnata a'i ddatblygu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Gweinidogion Cymru bellach) yn hytrach na chreu bwrdd ardollau a hybu statudol ar wahân. Fodd bynnag, oherwydd amseriad yr ymgynghoriad, nid oedd yn bosibl adlewyrchu'r polisi hwn o eiddo Llywodraeth y Cynulliad yn y Mesur Seneddol ac yn y Ddeddf AMChG a ddaeth yn ei sgil.

3.9 O ganlyniad, rhoddodd Deddf AMChG bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu'r cyrff neu'r byrddau ardollau presennol a chreu rhai newydd â swyddogaethau trawsffiniol yn eu lle trwy is-ddeddfwriaeth. Rhoddodd bwerau hefyd mewn cysylltiad â materion a wnelont yn unig â'u tiriogaethau eu hunain i Gynullaid Cenedlaethol Cymru (Gweinidog Cymu erbyn hyn), Gweinidogion yr Alban a'r adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, i greu byrddau i hybu marchnata, datblygiad a chynaliadwyedd yn eu diwydiannau amaethyddol.

3.10 Polisi cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yw lle bo'r swyddogaethau'n rhai sy'n perthyn i lywodraeth, naill ai o ran polisi neu o ran ei gyflenwi, dylai eu cyflawni ei hun gan ganolbwyntio ar weithio'n uniongyrchol â chleientiaid a chwsmeriaid a gwneud darparu gwasanaethau rheng flaen yn rhan ganolog o ddiwylliant Llywodraeth y Cynulliad. Trwy gadw'r swyddogaethau iddi ei hun, sicrheir bod y Llywodraeth yn fwy democrataidd atebol a llai biwrocrataidd. O ganlyniad, mae'r opsiwn a roddwyd i Lywodraeth y Cynulliad gan Ddeddf AMChG i greu corff ardollau a hybu/datblygu, yn hytrach nac i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn ei hun, yn anfoddhaol.

3.11 Ceisiodd Gweinidogion Cymru felly gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2009.

**Cefndir Cyffredinol y Mesur**

3.12 Yn y mesur, mae "gwartheg" a "moch" yn cael eu diffinio'n fanwl er eglurder. Gan fod i'r term "gwartheg" nifer o ddiffiniadau mewn deddfwriaeth, gallai gadael y term hwn heb ei ddiffinio greu amwysedd ynghylch pa anifeiliaid y cyfeirir atynt gan y term. Yn ogystal, gan fod y term "gwartheg" wedi'i ddiffinio, gellid bwrw o ganlyniad, heb ddiffiniad pellach, bod ystyr y term "moch" wedi'i gyfyngu i olygu moch domestig cyffredin er bod y term mewn gwirionedd yn cynnwys baeddod gwyllt a moch lled-wyllt eraill hefyd.

3.13 At bwrpas y diffiniad, mae "gwartheg" yn golygu anifeiliaid o deulu'r gwartheg, gan gynnwys beison a byfflo, ac mae "moch" yn golygu anifeiliaid o deulu'r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch lled-wyllt eraill. Mae'r diffiniadau hyn yn ceisio adlewyrchu polisi cig coch Llywodraeth y Cynulliad er mwyn iddynt allu cwmpasu sylwedd y Mesur.

3.14 Ystyr y diwydiant cig coch yn ôl y diffiniad ohono yn y Mesur arfaethedig yw'r:

a) holl weithgareddau sy'n rhan o fridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu unrhyw rai o'r anifeiliaid canlynol - gwartheg, defaid, neu foch; a

b) holl weithgareddau sy'n rhan o gynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ar wahân i laeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn) a

c) lladd-dai, ocsiynau a marchnadoedd sy'n cael eu defnyddio'n llwyr neu'n rhannol at bwrpas gweithgareddau sy'n dod o fewn ystyr paragraffau (a) a (b).

Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Mesur at 'anifeiliaid' yn golygu anifeiliaid marw lle bo'r cyd-destun yn gofyn am hynny.

3.15 Mae'r geiriau "cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth" wedi'u dewis i adlewyrchu geiriad Deddf AMChG. Mae'r "bridio" hefyd yn adlewyrchu geiriad Deddf AMChG (sy'n cyfeirio at "breeding and keeping")

3.16 Yn yr un modd, mae'r term "gweithgynhyrchu" a ddefnyddir yn y mesur wedi'i ddewis i adlewyrchu'n well eiriad Deddf AMChG.

3.17 Mae'r Mesur yn dweud yn glir, rhag unrhyw amheuaeth, nad yw gwlân cnu a chrwyn wedi'u cynnwys. Mae Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain yn gweinyddu cynllun marchnata ar wahân ar gyfer gwlân cnu.

3.18 Mae'r Mesur yn gyson â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach sy'n cael ei amlinellu yn Neddf AMChG. Byddai'n rhoi digon o bwerau i Weinidogion Cymru iddynt allu cynnal y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Fwrdd Ardollau Cymru (sef codi ardoll yn y sector cig coch), ar wahân i'r gweithgareddau sy'n ymwneud â gwlân cnu a chrwyn. Ei brif fwriad yw rhoi'r pwerau hynny i Weinidogion Cymru a diddymu Bwrdd Ardollau Cymru trwy is-ddeddfwriaeth.

**Cefndir Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC)**

3.19 Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales ("HCC") yw awdurdod cig coch Cymru. Mae'n cael ei arwain gan y diwydiant a'i nod yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaliadwy ar gyfer cig coch o Gymru er lles holl randdeiliaid y gadwyn gyflenwi. Cafodd HCC ei ffurfio yn sgil y strategaeth a amlinellwyd yn nogfen gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2001 o'r enw "Ffermio i'r Dyfodol: Cyfeiriad Newydd i Ffermio yng Nghymru". Yn sgil cyhoeddi'r ddogfen honno, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad eang ar y cynnig i sefydlu HCC.

3.20 Mae pob rhan o'r diwydiant o bob cwr o Gymru yn cael ei chynrychioli ar HCC ac mae'n manteisio ar gryfderau a phrofiad ei Fwrdd o Gyfarwyddwyr anweithredol. Mae gan Fwrdd HCC hyd at 12 o aelodau, yn gynrychiolwyr y diwydiant ac yn aelodau annibynnol. Mae'r Bwrdd yn cynrychioli'r gadwyn gyflenwi gyfan ac mae mwy na 50 y cant o'i aelodau eu hunain yn talu ardollau (h.y. yn cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr a phroseswyr Cymru).

3.21 Dechreuodd HCC ar ei waith ar ran y diwydiannau defaid, gwartheg a moch ym mis Ebrill 2003 trwy gytundeb dirprwyo rhyngddo â'r hen MLC mewn perthynas â

swyddogaethau statudol yr MLC yng Nghymru. (Llofnododd HCC gytundeb i ddechrau gyda'r British Pig Executive ["BPEX"] i gynnal gweithgareddau ar ran y rheini sy'n talu ardoll foch Cymru. Mae gwaith HCC wedi bod yn ymateb positif i anghenion datganoli, gan wneud strategaeth a chymorth yn fwy perthnasol ac yn fwy atebol i'r rhanddeiliaid. Fodd bynnag, cytunwyd bod HCC yn ysgwyddo'n uniongyrchol y cyfrifoldeb am farchnata, hybu a datblygu sector moch Cymru ar 01 Hydref 2008).

3.22 Cynllun strategol HCC yw helpu i ddatblygu diwydiant cig coch yng Nghymru sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy a blaengar, sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau cyfnewidiol yn y farchnad ac sy'n dod â lles i bobl Cymru. Yn unol â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru, amcanion strategol HCC yw:

- Gwella dealltwriaeth y diwydiant o dueddiadau'r farchnad a dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr;
- Meithrin blaengaredd a chryfhau'r dolenni yn y gadwyn gyflenwi;
- Gwella perfformiad busnesau proseswyr wrth iddyn nhw ymateb i newidiadau yn y farchnad, gofynion amgylcheddol, newid hinsawdd a'r galw gan ddefnyddwyr; a
- Gwella perfformiad busnesau cynhyrchwyr cynradd wrth iddyn nhw ymateb i newidiadau yn y farchnad, gofynion amgylcheddol, newid hinsawdd a'r galw gan ddefnyddwyr.

3.23 Yn dilyn Adolygiad Radcliffe, cafodd mecanweithiau newydd eu sefydlu ac fel rhan o hynny, cafodd yr MLC ei ddileu ar 31 Mawrth 2008 a chafodd cwmni sector cig coch ei greu yn ei le o dan reolaeth Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ("AHDB") fel y'i enwyd, ar 1 Ebrill 2008. Roedd hyn yn broblem i Gymru oherwydd yr unig ffordd y gallem ni gael cwmni cig coch ar wahân i fod yn gyfrifol am ddatblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru ac a fyddai'n gyfrifol hefyd am drefniadau codi ardoll fyddai trwy greu corff cyhoeddus o dan Ddeddf AMChG.

3.24 Dyna a wnaed, a chafodd Bwrdd Ardollau Cymru ei greu a dechreuodd ar ei waith ar 1 Ebrill 2008. Roedd trefniant corfforaethol HCC eisoes wedi'i newid ar 1 Ebrill 2007 i fod yn gwmni a oedd yn eiddo llwyr i Lywodraeth y Cynulliad.

3.25 Mae cytundeb dirprwyo yn bod rhwng Bwrdd Ardollau Cymru a HCC (cwmni cyfyngedig trwy warant sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru). Trwyddo, mae HCC yn cael parhau i godi'r ardoll cig coch ar gigyddwyr ac allforwyr yng Nghymru a dosbarthu'r arian. Unwaith y caiff y pwerau i ddatblygu a hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru eu rhoi'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru, caiff cytundeb dirprwy tebyg ei lunio er mwyn i'r trefniadau hyn allu parhau.

3.26 Yn eu tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddo graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, tynnodd NFU Cymru, y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol, y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol a HCC eu sylw at bwysigrwydd cadw corff ar wahân yng Nghymru i ddatblygu a hybu'r diwydiant cig coch. Y pwynt a wnaed oedd:

"Yn ogystal ag i Weinidogion Cymru, mae HCC yn atebol hefyd i'r diwydiant, yn gynhyrchwyr ac yn broseswyr, am mai nhw sy'n talu'r ardoll sy'n galluogi HCC i wneud ei ddyletswyddau."

3.27 Esboniodd y Gweinidog ei hun bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan HCC ar ran y diwydiant yn ffordd briodol i sicrhau bod y diwydiant yn teimlo bod y cynlluniau ar gyfer cefnogi'r diwydiant yn y dyfodol yn eiddo iddynt hwy. Cadarnhaodd hefyd nad oedd yn fwriad ganddi ymgorffori Hybu Cig Cymru o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

**Cefndir y Materion Trawsffiniol**

3.28 Cydnabu Adolygiad Radcliffe 2005 ei bod yn bwysig bod ardoll orfodol ar y diwydiant cig coch yn cael ei defnyddio i ddatrys diffygion yn y farchnad. Diffygion fel problemau strwythurol, problemau â'r diwydiant a phroblemau hybu cynhyrchion cig coch gyda'i gilydd. Mae'r ardoll yn cael ei thalu gan gynhyrchwyr cynradd a phroseswyr a'i gwario gan y cyrff hybu cig coch er lles cynhyrchwyr cynradd a phroseswyr. Mae'n hollbwysig bod gwaith y cyrff yn cynrychioli buddiannau holl aelodau'r gadwyn gyflenwi.

3.29 Wrth edrych tua'r dyfodol, tynnodd Adolygiad Radcliffe sylw at y canlynol:

- Dylai'r ardoll statudol ar gyfer cig coch barhau.
- Dylai arian yr ardoll gael ei ddefnyddio'n bennaf er lles y rheini sy'n ei dalu h.y. cynhyrchwyr cynradd.
- Nad system dosbarthu'r ardoll sy'n seiliedig ar y man lladd yw'r ffordd orau efallai i ofalu am les cynhyrchwyr.
- Mae opsiwn i gyfrif symiau'r ardoll mewn ffordd wahanol.

3.30 Dros y 10 mlynedd nesaf, mae'r tueddiadau a ddisgwylir yn niwydiant cig coch y DU yn debygol o arwain at y canlynol:

- Parhad yn y gostyngiad yn nifer y stoc, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf bregus
- Mwy o arbenigo ymhlith cynhyrchwyr, tuedd i uno unedau a gwella perfformiad pen ucha'r farchnad.
- Gostyngiad yn nifer y cynhyrchwyr gwael pan na fydd cymhorthdal yn cael ei dalu i'w hamddiffyn.
- Mwy o gystadleuaeth a mwy o fewnforion o Ddwyrain Ewrop a rhannau eraill o'r byd. Wrth i ansawdd y cig sy'n cael ei fewnforio godi, bydd sicrhau cynnyrch gwahaniaethol o'r DU yn parhau'n her ond yn angenrheidiol er lles y sector.
- Rhoi mwy o sylw i ansawdd cynnyrch y DU gan wneud y gorau o statws y PGI.
- Mwy o resymoli yn y sector lladd-dai/prosesu gyda'r pwysau i fod yn fwy, yn fwy effeithlon ac yn nês at y prif farchnadoedd yn ne Lloegr a thramor yn parhau.
- Parhau'r pwyslais ar faterion lles anifeiliaid gyda'r posibilrwydd y bydd amserau teithio anifeiliaid yn gorfod gostwng.

3.31 Bydd y tueddiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar sut i ddosbarthu'r ardoll er lles cynhyrchwyr cynradd. Mae dau bwynt yn arbennig angen sylw yn hyn o beth. Yn gyntaf, heb fecanwaith dosbarthu tecach, mae'n debygol y bydd yr ardoll yn crynhoi fwyfwy yn lladd-dai mawr Lloegr. Un o amodau'r Dynodiadau Daearyddol Gwarchodedig (PGI) yn yr Alban yw bod yr anifeiliaid yn cael eu lladd yn yr Alban, ond o dan y PGIs yng Nghymru, caiff yr anifeiliaid eu lladd y tu allan i'r wlad cyn belled â bod y lladd-dai'n cael eu cymeradwyo gan HCC. Mae PGIs yr Alban felly'n diogelu lladd-dai'r Alban rhag colli stoc ond nid oes gan ladd-dai Cymru yr un mesurau i'w hamddiffyn. Yn ail, oherwydd y newidiadau fydd yn digwydd i'r sector cynhyrchu cynradd dros y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol bod yr arian wrth ei ddosbarthu yn parhau i adlewyrchu dosbarthiad yr ardaloedd magu stoc.

3.32 Yn y senario uchod, bydd swm yr ardoll fydd ar gael i'r holl gyrff datganoledig yn parhau i gwympo o bosibl gan lesteirio ymdrechion y byrddau ardollau i wneud eu gwaith. O'r herwydd, mae'n briodol sicrhau bod gan Gymru yr hyblygrwydd o fewn fframwaith cyfreithiol y Mesur i allu cynnig ffyrdd eraill i benderfynu sut mae'r ardoll yn cael ei chodi, hynny i adlewyrchu anghenion y cynhyrchwyr cynradd sef y rhai sy'n talu'r rhan fwyaf o'r ardoll.


3.33 Cyn 2003, roedd yr MSC yn cadw'r holl ardoll gyffredinol a gesglid ar wartheg a defaid ac yn dosbarthu canrannau o ardoll hyrwyddo Prydain Fawr i Gymru (9% ar gyfer defaid a 5% ar gyfer cig eidion). Yn ôl yr MLC, roedd y ffigurau hyn yn cael eu cyfrif ar sail maint y cynhyrchu yn y rhanbarthau, hynny gyda sêl bendith undebau'r ffermwyr ar y pryd.

3.34 Rhwng 2003 a 2008, roedd mecanwaith dosbarthu'r ardoll ym Mhrydain Fawr yn golygu bod arian yr ardoll yn cael ei gasglu gan ladd-dai ar ran yr MLC ar sail nifer yr anifeiliaid yr oeddynt yn eu lladd ac roedd yn cael ei ailddosbarthu i HCC, Quality Meat Scotland (QMS) a'r English Beef and Lamb Executive (EBLEX) yn ôl lleoliad y lladd-dy. Felly, mae mecanwaith dosbarthu'r ardoll ar hyn o bryd yn dibynnu'n llwyr ar leoliad y lladd-dy a dyna'r rheswm pam mae anghydbwysedd rhwng nifer y stoc sy'n cael ei fagu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a'r ardoll y mae HCC, EBLEX a QMS yn ei dderbyn. Er enghraifft, yn ôl arolwg amaethyddol Mehefin 2007, roedd buches buchod eidion Cymru yn 16.7% o gyfanswm buches buchod eidion Prydain Fawr ond ym mlwyddyn ariannol 2007/08, dim ond 5.9% o ardoll eidion Prydain Fawr ddaeth i HCC a rhwng 2003/04 a 2007/08 cynyddodd ardoll eidion a defaid Prydain Fawr 15% ond dros yr un cyfnod, cynnydd o 7% yn unig yn ei incwm o ardollau a welodd HCC.

Mae Ffigur 1 yn dangos ar ffurf graffegau y gwahaniaeth rhwng yr ardoll wartheg a ddosbarthwyd ym Mhrydain Fawr ym mlwyddyn ariannol 2007/08 a dosbarthiad buchod eidion yng ngwledydd Prydain Fawr yn 2007.


**Ffigur 1: Canran dosbarthiad yr ardoll wartheg a buchod eidion yng ngwledydd Prydain Fawr, 2007**






Mae Ffigur 2 yn dangos ar ffurf graffegau y gwahaniaeth rhwng yr ardoll ddefaid a ddosbarthwyd ym Mhrydain Fawr ym mlwyddyn ariannol 2007/08 a dosbarthiad defaid magu yng ngwledydd Prydain Fawr yn 2007.

**Figure 2: Canran dosbarthiad yr ardoll ddefaid a mamogiaid magu yng ngwledydd Prydain Fawr, 2007**




3.35 Wrth i Bwyllgor Deddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, tynnodd Cig Oen ac Eidion Cymru ei sylw at broblem y fasnach drawsffiniol a chludo anifeiliaid ar gyfer eu lladd. Barn y gymdeithas oedd y byddai'n well bod yr ardoll yng Nghymru'n cael ei chodi yn y man cynhyrchu yn hytrach nac yn y man lladd, hynny gan fod y diwydiant cig coch yng Nghymru mor fregus ac oherwydd maint y fasnach drawsffiniol.

3.36 Dywedodd hefyd pe bai dim ond un lladd-dy mawr yn cau, y gallai hynny olygu colli cymaint â 70% o incwm yr ardoll i Gymru. Awgrymodd y byddai newid y ffordd y mae'r ardoll yn cael ei chodi a'i chasglu yn arwain at ragor o refeniw ac y byddai hefyd yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd ariannol i HCC nad yw'n eu cael ar hyn o bryd. Roedd HCC yn cefnogi'i barn ac ychwanegodd y gallai olygu £1 miliwn yn fwy o incwm iddo y flwyddyn.

3.37 Yn gryno felly, yn hanesyddol mae'r ardoll wedi cael ei gweld fel tâl a godir ar dda byw sy'n ymuno â'r gadwyn fwyd a phrif bwrpas arian yr ardoll yw hybu'r cynnyrch terfynol gyda'r nod o gefnogi'r gadwyn gynhyrchu gyfan. Fodd bynnag, nid yw hynny, fel a ddisgrifwyd uchod, o reidrwydd er lles tymor hwy cynhyrchwyr cynradd Cymru ac un o effeithiau bwriadol y ddeddfwriaeth hon yw cynhyrchu fframwaith rheoliadol sy'n ddigon hyblyg i'w gwneud yn bosibl newid y ffordd y mae'r ardoll yn cael ei phennu a'i chasglu.

3.38 Mae dau fecanwaith gwahanol posibl wedi'u llunio ar gyfer pennu a chasglu'r ardoll: ardoll ar drafodion; lle codir ardoll bob tro y newidir perchnogaeth yn y gadwyn gyflenwi, mewn ffordd debyg i TAW, neu ardoll ar gynhyrchydd lle mae'r ardoll yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid magu mewn buchesi a diadellau sy'n cael eu cadw gan y cynhyrchydd cynradd.

3.39 Bydd gofyn cysylltu ac ymgynghori â'r cynhyrchwyr cynradd, rhanddeiliaid eraill ac efallai hyd yn oed â gweinyddiaethau datganoledig eraill cyn y bydd modd pwyso a mesur yr opsiynau sy'n cael eu disgrifio uchod. Mae'n bwysig sicrhau bod fframwaith y Mesur yn caniatáu cadw'r trefniadau cyfredol ond ei fod yn rhoi digon o sgôp a hyblygrwydd i fecanweithiau amgen allu cael eu cyflwyno pe bai gofyn.

**Adran 4: Ymgynghori**

4.1. Ymgynghorwyd yn eang ar yr argymhellion yn yr adroddiad ar Adolygiad Radcliffe o'r cyrff ardollau. Roedd yr ymatebwyr o'r sector cig yn gwbl gefnogol i'r syniad o gael corff codi ardoll ar ddiwydiant cig coch Cymru a fyddai'n atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach nag i Fwrdd Ardollau'r DU – AHDB. Derbyniwyd y syniad gan yr holl brif garfannau yng Nghymru, gan gynnwys NFU Cymru, HCC, Cig Oen ac Eidion Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru.

4.2. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos ar yr offeryn cadarnhau drafft (OS) ar gyfer Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2007 i ben ar 24 Awst 2007 a derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad chwe ymateb o sylwedd.

4.3. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cyfan yn gefnogol i raddau amrywiol o'r angen am strwythur fyddai'n codi ac yn casglu ardoll yng Nghymru. Roedd y mwyafrif yn cydnabod y byddai angen i'r Bwrdd Ardollau Cymreig newydd gydweithio'n glos â HCC fel bod HCC yn cael parhau i fod y corff sy'n rhoi'r strategaeth ar waith ac sy'n datblygu'r diwydiant a gweithgareddau hybu cig coch. Er hynny, roedd nifer o ymatebwyr o blaid newid y ffordd yn y dyfodol y mae'r ardoll yn cael ei phennu a'i chasglu er mwyn iddi adlewyrchu'n well anghenion Cymru, fel a drafodwyd yn Adran 3.

4.4 Am y rhesymau hynny felly, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid gwneud cynigion i newid y ffordd y mae'r ardoll yn cael ei phennu a'i chasglu yn y dyfodol. Bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu i ni barhau â'r trefniadau cyfredol i'r dyfodol rhagweladwy ond bydd hefyd yn rhoi'r sgôp i fod yn hyblyg i ddatblygu mecanweithiau eraill yn y dyfodol ar gyfer pennu a chasglu'r ardoll.

**Adran 5: Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

5.1 Mae'r adran hon yn ymdrin yn fanwl â phob darpariaeth yn y Mesur i wneud is-ddeddfwriaeth. Bydd pob un yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud gwelliannau i fanylion y Mesur fel y gall ymdrin â materion neu ddatblygiadau sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Bydd hyn yn osgoi'r gofyn i gyflwyno Mesur diwygio bob tro y bydd angen delio â newid yn y diwydiant cig coch yn y dyfodol.

5.2 Un o argymhellion adroddiad Adolygiad Radcliffe yw awgrymu y dylai cyfansoddiad y cwmnïau newydd ddiffinio natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y cyrff ardollau gwahanol. Bydd gofyn gosod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y caiff y cyrff ardollau ei wneud ond yn eu hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar yr Adroddiad, dywedodd HCC "na ddylid pennu ffiniau rhy haearnaidd."

5.3 Cynigiodd HCC y dylai rôl y cyrff ardollau fod yn seiliedig ar asesiad parhaus o anghenion y diwydiant ar sail y dystiolaeth, er enghraifft gwelwyd bod gwir werth mewn ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n ceisio ailennyn hyder cwsmeriaid yn dilyn pryderon ynghylch diogelwch cig coch a sylw yn y cyfryngau i ofnau ynghylch ei ddiogelwch.

5.4 Byddai'n well gan HCC weld y fframwaith deddfwriaethol yn pennu ffiniau bras yn hytrach na gweithgareddau pendant rhagnodedig. Gan fod gan Gig Eidion a Chig Oen Cymru Statws Ddynodedig Daearyddol, mae cyfleoedd mawr i fanteisio ar y statws hwnnw er lles diwydiant cig coch Cymru yn ei gyfanrwydd a gallai hynny olygu amrywiaeth o weithgareddau newydd yn y dyfodol gan ddibynnu ar yr anghenion allai cael eu clustnodi. Am y rhesymau hyn, mae'n hanfodol bod cwmpas y Mesur yn ddigon eang i allu caniatáu gweithgareddau yn y dyfodol fyddai'n gallu ymateb i'r anghenion ar y pryd.

5.5 O dan y Mesur, bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud gorchmynion i:

5.5.1 newid, diddymu neu ychwanegu at y swyddogaethau fel y'u nodir yn Atodlen 1 (adran 3). Mae Atodlen 1 yn rhestr o swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu cyflawni. Wrth i'r diwydiant ddatblygu, efallai y gwelid swyddogaethau newydd neu fod rhai bellach ddim yn cael eu harfer a byddai rhoi'r pŵer i ddiddymu neu ychwanegu swyddogaeth trwy orchymyn yn golygu osgoi'r angen am Fesur diwygio. Gan y bydd ychwanegu, newid neu ddiddymu swyddogaeth yn debygol o newid pwerau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn mewn modd sylfaenol, teimlwn y byddai pŵer trwy is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol, yn briodol.

5.5.2 gosod ardoll ar unrhyw rai o'r canlynol: cigyddwyr, allforwyr a phersonau sy'n cyflawni gweithgareddau cynradd neu eilaidd (adran 4). Mae cigyddwyr ac allforwyr yn atebol i dalu'r ardoll o dan yr is-ddeddfwriaeth bresennol a byddant yn atebol i dalu'r ardoll o dan yr is-ddeddfwriaeth a wneir cyn gynted ag y daw'r Mesur i rym. Fodd bynnag, oherwydd natur cyfnewidiol y diwydiant, mae'n bosibl yn y dyfodol y bydd angen dynodi personau eraill i fod yn atebol i dalu'r ardoll ac mae'r Mesur yn darparu'r modd i ddynodi'r personau eraill hynny trwy is-ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n golygu na fydd yn rhaid wrth Fesur diwygio. Fel mesur rhagofalus arall, os bydd Gweinidogion Cymru am ddynodi bod personau eraill sy'n cyflawni "gweithgaredd eilaidd dynodedig" (na fyddai'n perthyn yn union i brif ffrwd y diwydiant cig coch) yn atebol i dalu'r ardoll, er mwyn cael gwneud y dynodiad hwnnw trwy orchymyn, bydd yn rhaid dilyn y weithdrefn gadarnhaol;

5.5.3 newid, diddymu neu ychwanegu darpariaethau yn Atodlen 2 sy'n delio â rhedeg yr ardoll a chyfraddau uchaf yr ardoll (adran 5). Dros amser, mae'n debygol y bydd cyfraddau uchaf yr ardoll a godir a gweinyddiaeth y drefn a ddefnyddir i gasglu'r ardoll yn gorfod newid i addasu i newidiadau yn y diwydiant. Gan y gallai'r newidiadau hynny fod yn sylfaenol, cynigir caniatáu newid Atodlen

2 trwy is-ddeddfwriaeth. Ni fyddai'r newidiadau hynny mor sylfaenol fel bod angen Mesur diwygio;

5.5.4 gwneud darpariaeth ynghylch gosod ardollau mewn cysylltiad â phersonau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd neu eilaidd dynodedig (adran 6). Gan fod y pŵer i wneud y gwelliannau a ystyrir gan adran 6 yn rhai gweinyddol eu natur ar y cyfan, ystyrir y byddai is-ddeddfwriaeth yn fwy effeithiol na Mesur diwygio. I gadw i fyny â newidiadau yn y diwydiant a allai ddigwydd yn gyflym a heb fawr o rybudd, byddai is-ddeddfwriaeth yn ffordd lawer mwy effeithiol i addasu i'r newidiadau hyn na dilyn gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer Mesur diwygio.

5.6 Caiff y gorchmynion a enwir yn 5.5 eu gwneud yn unol â'r weithdrefn negyddol, ac eithrio gorchmynion a wneir o dan adrannau 3(3), 4(5), 5(4) a 6(3) fydd yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Nid oes yn rhaid i orchmynion a wneir o dan adran 18 (cychwyn) ddilyn unrhyw weithdrefn.

5.7 Y bwriad, yr un pryd ag y daw'r Mesur i rym, yw y gwnaiff Gweinidogion Cymru orchymyn i ddynodi cigyddion ac allforwyr yn atebol i dalu'r ardoll.

**Adran 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1. Nid oes angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Mesur hwn.

6.2. Amcan y Mesur drafft yw darparu mecanwaith y caiff Gweinidogion Cymru bwerau drwyddo i ddatblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru, gan gynnwys pennu, casglu a gwario arian yr ardoll a godwyd i weithredwyr yn y diwydiant cig coch. Ar hyn o bryd, Bwrdd Ardollau Cymru sy'n ysgwyddo'r swyddogaethau hyn ac mae ganddo gytundeb dirprwyo gyda HCC sy'n casglu'r ardoll ac yn defnyddio'r arian i ddatblygu a hybu'r diwydiant. Mae HCC yn eiddo llwyr i Lywodraeth y Cynulliad.

6.3 Unwaith y bydd y pwerau angenrheidiol wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru, y bwriad yw llunio cytundeb dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a HCC er mwyn i'r trefniadau presennol allu parhau.

6.4 O dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd y costau i'r diwydiant yn newid, na chostau HCC ar gyfer casglu a chyfrif arian yr ardoll na'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen. Bydd modd arbed peth arian am na fydd angen ysgwyddo yn y dyfodol gostau rhedeg Bwrdd Ardollau Cymru y mae HHC yn talu amdanyn nhw ar hyn o bryd.

6.5 Ni fydd y Mesur yn esgor ar unrhyw gostau gweinyddol na chydymffurfio na chostau eraill.

## Nodiadau Esboniadol

## Rhagarweiniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur arfaethedig y Diwydiant Cig Coch (Cymru) fel y'i cyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar ****** Medi 2008.

2. Fe'u paratowyd gan Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo darllenwyr y Mesur Arfaethedig ac i helpu goleuo trafodaeth arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur drafft ac ni chawsant eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol law yn llaw â'r Mesur arfaethedig.  Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad trwyadl o'r Mesur. Os ymddengys, gan hynny, nad oes angen unrhyw esboniad ar adran neu ran o adran, ni roddir un.

4. Nodiadau Esboniadol yw'r rhain ar Fesur Cynulliad i wneud darpariaeth ynghylch gosod ardoll mewn perthynas â'r diwydiant cig coch yng Nghymru ac at y dibenion cysylltiedig o ddatblygu a hybu'r diwydiant hwnnw yng Nghymru, y DU a gweddill Ewrop. Mae'r pwerau i wneud Mesur o'r fath wedi'u cynnwys ym Mater 1.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u mewnosodwyd gan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

## Sylwebaeth ar Adrannau

### Adran 1 – Ystyr "y diwydiant cig coch"

Mae'r adran hon yn diffinio yr hyn a olygir wrth y term 'y diwydiant cig coch' fel mae'n gymwys yn y cyd-destun hwn, hynny yw, bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid, a moch( rhai byw a marw fel ei gilydd) ac unrhyw gynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth.

Mae rhai gweithgareddau nas cwmpesir gan y Mesur hwn oherwydd fod yna drefniadau ar wahân i gefnogi a datblygu'r cynhyrchion hynny megis llaeth a chynhyrchion llaeth a gwlân cnu sydd dan gyfrifoldeb Dairy UK a'r Bwrdd Marchnata Gwlân yn eu trefn. Ni chwmpesir crwyn gan nad ystyriwyd erioed eu bod yn rhan o'r diwydiant cig coch ond mai un elfen yn y fasnach gelanedd-dai ydynt sydd heb fod yn ddarostyngedig i ardoll.

Mae'r Mesur yn darparu fod modd cymhwyso amrediad cymwys y pwerau sydd ar gael o dan y Mesur mewn ffordd wahanol i'r tri sector allweddol.

### Adran 2 – Amcanion

Amcanion y Mesur yw;

- Cynyddu effeithiolrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch
- Gwella marchnata yn y diwydiant
- Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallai eu darparu i'r gymuned
- Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy

Yr un yw'r amcanion hyn ag amcanion cyfredol Bwrdd Ardollau Cymru ac maent hefyd yn adlewyrchu'r amcanion a osodir yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, sef y brif fframwaith gyfreithiol ddiffiniadol ar gyfer hybu a datblygu prif sectorau amaethyddol y Deyrnas Unedig.

### Adran 3 – Swyddogaethau

Swyddogaethau'r Mesur yw darparu'r moddau a'r dulliau sy'n rhoi i Weinidogion Cymru'r pŵer i allu diwygio manylion y Mesur drwy allu newid y geiriad, a thrwy ychwanegu disgrifiadau newydd neu ddileu disgrifiadau presennol o'r gweithgareddau y gellir eu gwneud er mwyn datblygu a hybu'r diwydiant cig coch. Rhoddir yr eglurhad manwl yn Atodlen 1.

Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i greu cronfa wrth gefn os oes angen gwneud hynny at ddibenion cynorthwyo ariannu'r gweithgareddau hyn.

### Adran 4 – Gosod ardoll – dynodi personau sy'n atebol

Y prif ddull o roi cefnogaeth ariannol i'r diwydiant cig coch yw drwy godi cronfeydd yn fewnol oddi wrth y diwydiant hwnnw y gellir wedyn eu gwario ar ddatblygu a hybu'r

amrywiol weithgareddau a osodir yn Atodlen 1.

Mae'r Mesur yn gosod rhai paramedrau sylfaenol mewn perthynas â'r ardoll.

Mae'n rhaid gwario'r arian a godir ym mhob sector (gwartheg, defaid a moch) er budd y sector hwnnw ac felly caiff y sector ei hybu yn gymesur â'i bwysigrwydd i'r diwydiant amaeth yng Nghymru.

Dim ond ar hybu a datblygu'r tri sector hwn yn y diwydiant cig coch y ceir gwario'r arian a godir, ni cheir ei wario, er enghraifft, ar hybu cynnyrch amaethyddol cyffredinol o Gymru na'i wario ychwaith ar ymchwil a datblygu'n gyffredinol.

Mae'r Mesur yn darparu hyblygrwydd fel y byddai modd ei gwneud yn ofynnol i bobun drwy'r gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd, o'r amaethwr sy'n cadw'r stoc ac yn bridio a meithrin yr anifeiliaid i'r cigydd sy'n gwerthu cig a chynhyrchion eraill i'r cwsmer terfynol, dalu'r ardoll. Fe ddichon gweithredwyr lladd-dai, allforwyr, marchnadoedd ocsiynau da byw a chwmnïau sy'n ymwneud â phob ffurf ar brosesu pellach ddod yn rhai cymwys i godi ffi ardoll arnynt.

Mae'r Mesur yn gosod pedwar categori o berson a ddichon fod yn gymwys i godi ffi ardoll arno, sef

- Person sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig
- Person sy'n cyflawni gweithgaredd eilradd dynodedig
- Cigyddwyr
- Allforwyr

Caiff y termau gweithgaredd cynradd a gweithgaredd eilradd eu diffinio yn yr adran hon ym mharagraff 6.

Gwneir y diffiniadau hyn mewn termau sy'n fwy eang na phenodol fel y gall y Mesur ddarparu fframwaith hyblyg y dichon gwahanol rannau'r diwydiant ei defnyddio fel y man pennu os oes ardoll i'w chodi. Ceir yr un hyblygrwydd o ran y man neu'r mannau lle gellid casglu'r ardoll.

Mae'r hyblygrwydd hwn yn bwysig mewn Mesur fel hwn oherwydd fod angen i Weinidogion Cymru fod â phwerau sy'n eu galluogi i ddatblygu'r diwydiant yn unol â strategaethau tymor canolig a hirdymor sy'n seiliedig ar asesu a gwerthuso gofynion a chyfleoedd y farchnad yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau hynny ynghylch y dyfodol yn rhwym o newid ac felly mae'r Mesur hwn yn amcanu datblygu'r dulliau sy'n galluogi addasu'r gefnogaeth a roddir i'r diwydiant mewn modd sy'n ymateb i'r newidiadau hynny ac sy'n eu hadlewyrchu.

**Adran 5 - Yr ardollau sydd i'w codi ar gigyddwyr neu allforwyr: cyfrifo’r ardoll a’i thalu**

Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n galluogi i'r trefniadau cyfredol presennol ar gyfer pennu a chasglu'r ardoll o'r man cigydda neu o'r man lle'r allforir yn fyw ohoni barhau'n ddi-doriad neu heb ddiwygiadau mawrion.

Gosodir y ffordd o gyfrifo'r ardoll bresennol ac o'i thalu yn Atodlen 2.

**Adran 6 – Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn ag ardollau sydd i'w gosod mewn perthynas â phersonau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig neu weithgaredd eilradd dynodedig**

Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu trefniadau o'i mewn ar gyfer penderfynu ar ardoll a'i chasglu o fannau eraill o fewn y gadwyn gyflawni. Rhaid gwneud unrhyw drefniadau o'r fath drwy orchymyn.

**Adran 7 – Dirprwyo ac is-gwmnïau**

Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n peri fod gan Weinidogion Cymru y pŵer o'i mewn i ddirprwyo'r cyfan o'u pwerau neu rai ohonynt i drydydd partïon. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith sy'n peri fod gan Weinidogion Cymru y pŵer o'i mewn i gaffael neu i sefydlu is-gwmnïau i wneud unrhyw un neu fwy o'u swyddogaethau.

Mae'r adran hon yn peri fod modd i Weinidogion Cymru greu a gwneud trefniadau gyda chyrff megis Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC) fel y gall HCC ymgymryd â rhai neu'r cyfan o'r dyletswyddau a chyflawni rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau. Mae'n darparu hyblygrwydd fel y gellid defnyddio opsiynau eraill yn y dyfodol a newid neu ddiwygio trefniadau presennol.

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn eglur na all Gweinidogion Cymru ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud rheoliadau na gorchmynion na thros wneud cyfarwyddiadau i unrhyw un arall.

**Adran 8 – Datganiadau Niferoedd ac Amcangyfrifon**

Mae'r adran hon yn gosod y trefniadau sy'n peri fod rhaid i bersonau sy'n atebol i dalu ardoll gyflwyno datganiadau sy'n nodi nifer y gwartheg, y defaid neu'r moch y gellir codi ardoll amdanynt gan roi pa wybodaeth bynnag y bernir ei bod yn ofynnol drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a hynny ym mha ffurf bynnag sy'n ofynnol.

Mae'r adran yn darparu y gellir altro a diwygio natur, amseriad a chynnwys unrhyw ddatganiadau o'r fath yn ôl yr angen.

Mae hefyd yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo datganiadau niferoedd i ddod oddi wrth bersonau sy'n atebol i dalu ardoll ond nis cyflwynir ganddynt, ac mewn achos o'r fath, gellir rhoi i'r cyfryw bersonau amcangyfrif (ysgrifenedig) o'r nifer disgwyliedig o anifeiliaid y bydd rhaid talu ardoll arnynt. Yna bydd ganddynt 28 o ddiwrnodau i ddarparu datganiad niferoedd iawn a chywir yn y ffurf sy'n ofynnol neu bydd rhaid iddynt dalu pa ardoll bynnag sy'n angenrheidiol ar sail yr amcangyfrif a roddwyd iddynt.

**Adran 9 – Darparu gwybodaeth**

Mae'r adran hon yn darparu'r fframwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol fod rhaid i bobl sy'n gorfod talu'r ardoll gadw cofnodion priodol ynghylch yr anifeiliaid y mae'r ardoll yn seiliedig arnynt ac fod rhaid iddynt ddangos y cofnodion hynny i gael eu harolygu pan

ofynnir iddynt wneud hynny.

Mae i bobl beidio â chadw cofnodion o'r fath ac/neu iddynt fethu â dangos y cofnodion hynny pan ofynnir iddynt yn dramgwydd ac mae'r adran hon yn gosod natur y tramgwydd hwnnw a graddfa'r gosb.

**Adran 10 – Arolygu**

Mae'r adran hon yn gosod y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru dros benodi arolygwyr (y person penodedig) a gaiff fynd a gweld yr anifeiliaid, y cofnodion a'r wybodaeth am y taliad er mwyn sicrhau fod y gofyniad i roi cyfrif am yr ardoll ac i'w thalu wedi'i fodloni.

**Adran 11 - Pwerau mynediad**

Mae'r adran hon yn gosod amodau cyffredinol a phenodol y mae’n rhaid eu bodloni cyn y gall arolygwr (y person penodedig) wneud cais am warant er mwyn medru mynd ar dir a/neu i fangre at ddibenion gorfodi'r Mesur.

**Adran 12 – Tramgwyddau gan gyrff neu Bartneriaethau**

Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n rhoi i unigolion, megis cyfarwyddwyr, rheolwyr, ysgrifenyddion neu swyddogion eraill cyrff corfforaethol megis cwmnïau cyfyngedig neu ffurfiau eraill ar endidau cyfreithiol, gyfrifoldeb personol o fewn telerau'r Mesur hwn a gellir dwyn achos yn eu herbyn os ydynt wedi cyflawni unrhyw dramgwyddau o dan y Mesur hwn.

Gosodir amodau cyffelyb ar gyfer cyrff anghorfforedig, partneriaethau a phartneriaethau Albanaidd fel ei bod yn eglur sut y byddai'r Mesur hwn yn gymwys i'r gwahanol weithredwyr o fewn cadwyn gyflenwi'r diwydiant cig coch.

**Adran 13 – Cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achos**

Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achos o dan y Mesur hwn, sef o fewn 6 mis i'r ddyddiad y daeth tystiolaeth ddigonol i law i ddangos y dichon fod tramgwydd wedi'i gyflawni ond ni chaniateir cychwyn achos fwy na dwy flynedd ar ôl cyflawni'r tramgwydd.

**Adran 14 - Diffiniadau**

Mae'r adran hon yn diffinio'r prif dermau yn ôl yr angen yng nghyd-destun y Mesur hwn.

**Adran 15 – Diddymu Bwrdd Ardollau Cymru**

Mae'r adran hon yn darparu'r pwerau sy'n diddymu Bwrdd Ardollau Cymru.  Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Bwrdd Ardollau Cymru a grëwyd o dan delerau'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru at y dibenion o osod, codi a gwario arian ardollau a godwyd oddi wrth

ddiwydiant cig coch Cymru.

**Adran 16 – Cyfarwyddiadau**

Y cyfan a ddywedir yn yr adran hon yw fod rhaid o dan y Mesur hwn i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru fod wedi'u rhoi yn ysgrifenedig ond fod modd eu hamrywio neu eu dirymu drwy unrhyw gyfarwyddyd diweddarach.

**Adran 17 – Gorchmynion a rheoliadau**

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Mesur. Mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefnau penderfyniad negyddol, ac eithrio unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 3(3) (sy'n diwygio Atodlen 1), adran 4(5) (dynodi gweithgaredd eilradd), adran 5(4) (sy'n diwygio Atodlen 2) ac adran 6(3) (sy'n diwygio'r Mesur pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n hwylus) sydd oll yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Ymhellach, nid yw unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 18(2) (cychwyn) yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

**Adran 18 – Cychwyn**

Mae'r adran hon yn gosod pa bryd y byddai'r pwerau o dan y Mesur hwn yn dod i rym.

**Adran 19 – Enw Byr**

Y disgrifiad byr o'r Mesur yw Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

**Atodlen 1**

Mae'r Atodlen hon yn rhoi disgrifiad ac eglurhad manwl o natur y gweithgareddau y gellir ymgymryd â nhw at ddibenion datblygu a hybu'r diwydiant cig coch.

**Atodlen 2**

Mae'r Atodlen hon yn egluro sut y cyfrifir yr ardoll a sut y'i telir gan gigyddwyr ac allforwyr.

DIWEDD